**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/Feb/2024ETRA

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

1 Chwefror 2024

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Ionawr, yn gwahodd tystiolaeth ysgrifenedig i lywio ymchwiliad y Pwyllgor i Gyswllt Ffermio.

Rwyf wedi amgáu.

Yr eiddoch yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymholiad gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cyswllt Ffermio – ymateb ysgrifenedig i gais am dystiolaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – 5 Chwefror 2024**

Cyd-destun

Rydych wedi gofyn imi rannu gwybodaeth benodol i gefnogi gwaith y Pwyllgor. Mae'r wybodaeth isod.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr drwy sawl ymyriad, gan gynnwys cyngor, arweiniad, hyfforddiant a grantiau. Cyswllt Ffermio, brand cydnabyddedig ac uchel ei barch, yw'r prif fecanwaith ar gyfer darparu dysgu a datblygu a rhannu gwybodaeth. Mae contract presennol Cyswllt Ffermio yn cael ei gyflawni gan Menter a Busnes a Lantra. Dechreuodd ar 1 Ebrill 2023 am mae'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025.

Gofynnaf i'r Pwyllgor nodi ei bod yn bosibl y bydd unrhyw gontract yn y dyfodol yn wahanol i'r contract presennol, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben wrth ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau. Mae'n bosibl y byddwn yn cadw'r enw Cyswllt Ffermio – ond hefyd mae'n bosibl y byddaf yn penderfynu newid enw'r brand.

Bydd unrhyw gontract yn y dyfodol yn cael ei gynllunio i ymateb i'r amcanion ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru), ac yn benodol i gyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), wrth inni bontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol rhwng 2025 a 2029.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bydd cymorth yn parhau i fod ar gael yn y dyfodol i bob ffermwr, ni waeth a yw'n gwneud cais i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy neu beidio.

Y Fframwaith Caffael

Defnyddir fframwaith i ddarparu'r holl wasanaethau sy'n cael eu caffael yn y dyfodol, gan gynnwys olynydd Cyswllt Ffermio.  Y cam cyntaf yw rhoi fframwaith addas ar waith i gefnogi anghenion ffermwyr, rheolwyr tir a chymunedau gwledig ehangach sy'n cyd-fynd â'r amcanion ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae hon yn broses barhaus, a ddylai fod wedi'i chwblhau yn ystod y misoedd nesaf.

Byddwn yn hapus i roi rhagor o fanylion am y fframwaith ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Amserlen ddisgwyliedig y broses dendro

Fy mwriad yw i'r ymarfer tendro ar gyfer y contract newydd ddechrau ym mis Mehefin 2024, i bob ymateb i'r ymarfer tendro gael ei ystyried a'i sgorio erbyn mis Awst, ac i ddewis cyflenwyr a dyfarnu'r contract(au) newydd iddynt erbyn mis Medi.

Pryd y bydd y contractwr/wyr newydd yn dechrau?

Rwyf am i'r contract(au) newydd ddechrau ar 1 Ionawr 2025, i gyd-fynd â dechrau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ynghylch cynnig i ddefnyddio Ffurflen y Cais Sengl i ffermwyr wneud cais am Daliad Sylfaenol Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a chadw'r cyfnod ymgeisio cyfredol rhwng mis Mawrth a 15 Mai y mae ffermwyr yn gyfarwydd ag ef Mae hyn yn golygu na fydd nifer y ffermwyr sy'n cymryd rhan ym mlwyddyn gyntaf y cynllun yn hysbys tan fis Mai 2025.

Cynlluniau ar gyfer pontio rhwng contractau Cyswllt Ffermio presennol a rhai yn y dyfodol

Bydd fy swyddogion yn sicrhau bod y pontio o wasanaeth Cyswllt Ffermio presennol o dan yr hen gontract i'r gwasanaeth o dan y contract newydd yn digwydd yn ddi-dor.

Fel y nodir uchod, daw'r contractau presennol i ben ar 31 Mawrth 2025, ond rydym yn bwriadu dyfarnu'r contract(au) newydd i ddechrau dri mis yn gynharach ar 1 Ionawr 2025.

Mae hyn er mwyn sicrhau:
- nad oes bwlch yn y cymorth a ddarperir ar gyfer ffermwyr a'r gymuned wledig ehangach;
- bod gennym amser i drosglwyddo ffermwyr o un darparwr cymorth i'r llall;
- bod gan y cyflenwyr newydd amser i adeiladu eu cynnig newydd (byddem yn disgwyl iddynt fod yn barod ar y diwrnod cyntaf, ond rydym yn cydnabod bod potensial ar gyfer rhai heriau cychwynnol gan y bydd angen iddynt weithredu'n gyflym).

Manylion cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y contract newydd

Mae swyddogion wrthi'n datblygu'r fanyleb tendro ar gyfer y contract newydd. Dim ond ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddod i ben ar 7 Mawrth y, ac ar ôl i swyddogion ystyried yr ymatebion, y gellir cwblhau hyn yn llawn. Bydd angen i'r fanyleb dendro adlewyrchu dyluniad terfynol y cynllun.

Fodd bynnag, gall ffermwyr ddisgwyl derbyn o leiaf yr un amrediad o gymorth a gynigir ar hyn o bryd, er y bydd wedi'i deilwra mewn ffordd wahanol i adlewyrchu natur newidiol y cymorth sydd ei angen ar y sector amaethyddol.

Ni allaf ragweld union fanylion manyleb y tendr, na sut olwg fydd ar y contract newydd, gan y bydd hwn yn ymarfer cystadleuol. Fodd bynnag, gallaf roi sicrwydd i'r Pwyllgor y

bydd nid yn unig ofynion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (unwaith maent wedi'u cadarnhau) yn ganolog i'r fanyleb, ond hefyd yr amcanion ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Bydd y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y contract newydd yn cael ei phennu fel rhan o gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26.

Sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Cyswllt Ffermio helpu i weithredu elfennau eang y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Byddaf yn blaenoriaethu cymorth i ffermwyr i ddeall a chyflawni'r hyn sy'n ofynnol ganddynt – ni phenderfynwyd ar y gofynion terfynol eto – drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.  Yn y ddogfen ymgynghori mae'r rhain yn cynnwys gofynion newydd ynghylch Meincnodi, Datblygu Proffesiynol Parhaus, Iechyd Pridd a Phlanhigion, Rheoli Cynefinoedd a Choetiroedd, yn ogystal â Lles Anifeiliaid – mae'r rhaid, wrth gwrs wedi'u cynnwys yma fel enghreifftiau yn unig, a bydd eu cynnwys (neu unrhyw beth arall) neu beidio yn destun yr ymgynghoriad.